CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU
8 Chwefror 2018
AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, I Rowlands, G Parry, R G Parry, S Parry, S Williams, E Huws, C Ll Thomas, K Humphreys.	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Hughes, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cais ariannol Ysgol Bryngwran: Cyng S Parry, K Humphreys, R G Parry, S Williams, E Huws.
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11.01.18. Cyng G Parry yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Mae'r swings a'r matiau wedi cael eu gosod. Mae'r tir yn gwlyb ofnadwy. Cytunwyd i drafod drainage ar y cae.
4.2	**Lon Salem** - Disgwyl i'r Cyngor Sir gwneud y gwaith paentio.
4.3	**Lôn y Fynwent** - Mae Hogans am cynnig pris am llenwi'r tyllau a gofynwyd i'r Clerc cael pris arall. Mae Cyng K Humphreys wedi mynd a bin newydd i'r fynwent ond mae'r bin wedi cael ei ddwyn. Mae Cyng Humphreys am gosod un arall. Cytunwyd i cael un bin du yn unig.
4.4	**Parcio yn y Stryd Fawr** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Dywedodd y Cadeirydd bod rhywun wedi torri i mewn i neuadd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gofyn am rhodd i ychwanegu at y system cctv. Cytunwyd i cynnig £200. Cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i Cyng K Humphreys am prynu a gosod coeden nadolig yn y pentref
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Iechyd ar Amgylchedd
6.1	Mae'r Cyngor Sir wedi pasio y cwyn am baw cwn ymlaen i Kingdom
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Horizon - Ymgynghoriad ar dir ychwanegol - gwybodaeth yn unig
7.2	Cyngor Gwynedd - pris archwilio £125-£150
7.3	Alun Foulkes - pris archwilio. Mae Mr Foulkes yn cynnig gwneud y gwaith ar yr un telerau a Mr John Roberts (y cyn archwilydd). Cytunwyd i cynnig contract i Mr Foulkes am un flwyddyn.
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.18

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Gwefan y Cyngor - Mae angen ail edrych ar y gwefan a gosod lluniau newydd
8.2	Archwiliwr mewnol newydd - gweler 7.3
8.3	Baw cŵn - gweler 6.1
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Anglesey Computer Solutions £270.00
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Cais am canllaw o'r hen fynwent i'r fynwent newydd. Cynigodd Cyng I Rowlands cael pris am y gwaith.
10.2	Cofrestru llwybrau cyhoeddus
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.18